# 6.0 Cyflogi a Rheoli Pobl

## Gweithio yn y Sector Gwirfoddol

## Trosolwg


1. **Cyflwyniad**
2. **Gweithio yn y Sector Gwirfoddol**
3. **Ystyried Gwneud Cais am Swydd**
4. **Ble i Chwilio am Swyddi**


Os ydych yn newydd i'r Sector Gwirfoddol neu os ydych yn ystyried gwneud cais am swydd yn y sector, yna gallai'r daflen wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol.

## Cyflwyniad

Mae'r Sector gwirfoddol (sector cymunedol a gwirfoddol neu sector nid-er-elw) yn amrywiol ac yn cynnwys popeth o grwpiau cymunedol lleol i fentrau cymdeithasol ac elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.



Llun: Menyw yn gweithio ar gyfrifiadurr

Mae'r sector yn annibynnol ar lywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol, ac yn wahanol i'r sector preifat, gan nad yw'n gwneud elw i'w ailddosbarthu i gyfranddalwyr.

Gall pobl weithio yn y Sector Gwirfoddol naill ai fel staff cyflogedig neu wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr. Mae rhai mudiadau'n cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr tra bod gan eraill gymysgedd o staff a gwirfoddolwyr cyflogedig.

Mae sawl math gwahanol o fudiadau o fewn y Sector gwirfoddol:

- Elusennau
- Grwpiau cymunedol
- Mentrau cymdeithasol
- Cwmnïau cydweithredol
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Undebau Credyd

Mae tua 30,000 o fudiadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru. Mae'r sector yng Nghymru yn cyflogi o leiaf 30,000 o bobl. Mae hyn yn cynrychioli 2.4% o nifer y bobl a gyflogir yng Nghymru ac felly mae'n chwarae rhan bwysig yn economi Cymru a chymdeithas ddinesig Cymru.

Mae angen parhaus am bobl, talent a sgiliau newydd yn y sector i gefnogi mudiadau sy'n datblygu ac yn tyfu. Mae'r sector yn addasu'n gyson i anghenion gwasanaeth newydd a diwallir y rhain gan brosiectau newydd a grwpiau a sefydlir o'r newydd.

Mae mudiadau'r Sector Gwirfoddol yn cyflawni eu nodau drwy ystod eang o weithgareddau, megis cynnig gwasanaethau a chymorth a chyngor uniongyrchol i unigolion a chymunedau. Mae yna fudiadau sydd â'r prif nod o sicrhau newid hirdymor neu systematig i bolisi ac ymarfer neu effaith gadarnhaol ar gymunedau neu'r amgylchedd. Gall mudiadau weithio'n lleol, yn rhanbarthol, ledled Cymru, ledled y DU neu ar lefel Ewropeaidd neu Fyd-eang.

## Elusennau

Sefydlir elusennau i fynd i'r afael â materion penodol. Dim ond os ydynt yn gweithio er budd y cyhoedd ac nid er mwyn hyrwyddo buddiannau unigolion penodol yn unig y gall mudiadau fod yn elusennau.

Mae elusennau'n derbyn eu harian o nifer o ffynonellau (gweler isod). Mae arian a godir yn helpu i dalu am ddarparu gwasanaethau neu brosiectau ar gyfer buddiolwyr ac i dalu am weithredu a rhedeg yr elusen.

Mae cyfyngiadau ar y mathau o weithgarwch y gall elusennau gymryd rhan ynddynt a'r ffordd y cânt eu rhedeg. Er enghraifft, ni all elusennau hyrwyddo safbwyntiau pleidiau gwleidyddol. Rheolir elusennau gan ymddiriedolwyr gwirfoddol; gallai'r gwirfoddolwyr hyn gael eu penodi neu eu hethol, yn dibynnu ar gyfansoddiad neu reolau'r mudiad. Gallwch ennill llawer o brofiad yn y sector drwy ddod yn ymddiriedolwr.

Mae'r Bwrdd ymddiriedolwyr (neu'r pwyllgor rheoli) yn llywodraethu'r mudiad ac yn gwneud penderfyniadau er budd y bobl a'r cymunedau y maen nhw'n eu cefnogi. Mewn elusennau bach sydd ag ychydig neu ddim staff, mae'r ymddiriedolwyr yn aml yn ymgymryd â rolau ymarferol. Ar gyfer mudiadau sydd â staff cyflogedig, mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r gwaith o redeg y mudiad o ddydd i ddydd i'r staff ac mewn rhai achosion i uwch weithiwr neu reolwr.

## Grwpiau Cymunedol

Yn gyffredinol, mae **grwpiau cymunedol** yn bodoli i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl leol ac nid ydynt yn gwneud elw. Yn aml, mae grwpiau cymunedol yn cael eu rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr. Mae enghreifftiau o grwpiau cymunedol yn cynnwys:

- Clybiau chwaraeon
- Neuaddau cymunedol a phentref
- Grwpiau celfyddydau lleol
- Grwpiau cymorth e.e. grwpiau rhieni a gofalwyr

## Mentrau Cymdeithasol

Mae **mentrau cymdeithasol** yn fusnesau sy'n anelu at newid y byd er gwell. Fel busnesau traddodiadol, eu nod yw gwneud elw ond yr hyn y maen nhw'n ei wneud gyda'u helw sy'n eu gosod ar wahân - maen nhw'n ail-fuddsoddi neu'n rhoi elw i greu **newid cymdeithasol** cadarnhaol. Mae mentrau cymdeithasol yn tueddu i ganolbwyntio ar gael effaith gadarnhaol yn y gymuned neu ar yr amgylchedd.

# Gweithio yn y Sector Gwirfoddol

## Beth yw ein Hegwyddorion?

Mewn nifer o ffyrdd mae gweithio yn y Sector Gwirfoddol fel gweithio mewn llawer o fathau eraill o fudiadau ond mae rhai gwahaniaethau pwysig yn y sector.

## Codi Arian

Fel y gwyddom, mae mudiadau'r Sector Gwirfoddol yn codi arian i wneud gwaith ond nid ydynt yn gwneud elw i'w ddosbarthu i gyfranddalwyr. Codir arian mewn nifer o ffyrdd:

- Rhoddion gan y cyhoedd
- Ffioedd aelodaeth h.y. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Grantiau o gronfeydd cyhoeddus e.e. gan awdurdodau lleol
- Grantiau gan ymddiriedolaethau e.e. Sefydliad Banc Lloyds
- Codi arian drwy ddigwyddiadau e.e. noson elusennol, arwerthiannau
- Talu am gontractau ar gyfer prosiectau, nwyddau a gwasanaethau
- Gwerthu nwyddau a gwasanaethau
- Cymynroddion – gadael arian mewn Ewyllysiau

## Sut rydym yn Ymateb i Gwsmeriaid

Gall ein cwsmeriaid gael eu galw'n gleientiaid, defnyddwyr gwasanaeth, buddiolwyr neu'n aelodau a nhw yw'r bobl sy'n elwa ar yr hyn y mae'r mudiad yn ei wneud. Fodd bynnag, efallai nad nhw yw'r rhai sy'n talu am y gwasanaeth neu sy'n talu amdano'n llawn. Er enghraifft, gellir cyfeirio pobl ddigartref at elusen ddigartrefedd, ond nid oes disgwyl iddynt dalu am y cymorth a gânt.

Mae'r arian i dalu am y gwasanaethau hyn yn debygol o ddod o roddion cyhoeddus, grantiau neu gontractau ar gyfer prosiectau neu wasanaethau gan asiantaethau fel yr awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru.

## Ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Sector Gwirfoddol wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn dylanwadu ar ein polisïau ar recriwtio, dyrchafiad, cyflog a thelerau ac amodau. Mae ein hymrwymiad i amrywiaeth yn golygu ein bod yn gwerthfawrogi pawb a'u cyfraniadau, rydym yn anfeirniadol ac yn osgoi stereoteipio. Yn ystod y cyfweliad rydym yn aml yn trafod ac yn pwyso a mesur barn a syniadau ymgeiswyr ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae nifer o fudiadau'r Sector Gwirfoddol yn cael eu sefydlu i herio canfyddiadau ac ymddygiadau sy'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau mewn cymdeithas. Mae eu gwaith yn ceisio dileu gwahaniaethu a gwella cynhwysiant. Os yw cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i chi, yna mae nifer o fudiadau a grwpiau yn y sector a fyddai'n elwa ar eich cyfranogiad.

## Cynnwys Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser yn rhydd heb ddisgwyl tâl ariannol. Maen nhw'n aml yn gwirfoddoli am achos y maen nhw'n credu'n angerddol ynddo. Mae nifer o grwpiau'r sector gwirfoddol yn dibynnu'n fawr iawn ar wirfoddolwyr.

Mae rhai mudiadau'n datblygu cynlluniau aelodaeth ar gyfer eu gwirfoddolwyr sy'n rhoi hawl iddynt bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac yn gofyn am eu barn ar brosiectau a gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod gan wirfoddolwyr fwy o ymdeimlad o berthyn a gwir lais yn y ffordd y caiff y mudiad ei redeg.

## Sut rydym yn Cael ein Rheoli

Pwyllgorau gwirfoddol sy'n rhedeg mudiadau'r Sector gwirfoddol; mewn elusennau gelwir y rhain yn Fyrddau Ymddiriedolwyr neu'n Bwyllgorau Rheoli. Mae ganddynt rwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol. Bydd pa mor aml y mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn dibynnu ar eu rôl a'u rhwymedigaethau, a maint a natur y mudiad.

## Cael eu Harwain gan Werthoedd

Nod mudiadau'r Sector Gwirfoddol yw cyflawni eu cenhadaeth a gweithio tuag at wella bywydau mewn rhyw ffordd benodol, yn hytrach na gwneud elw. Mae hyn yn aml yn golygu eu bod yn blaenoriaethu'n wahanol i'r ffordd y byddai busnes yn ei wneud. Mae llawer o fudiadau yn y sector yn cael eu harwain gan eu gwerthoedd. Mae eu gwerthoedd yn disgrifio'r egwyddorion y maen nhw'n eu defnyddio e.e. cynhwysol, dan arweiniad cleientiaid, grymuso

## Creadigrwydd

Nid oes gan lawer o fudiadau'r Sector gwirfoddol gyllidebau mawr. Mae pobl sy'n cyfrannu at elusennau yn disgwyl yn briodol i'w harian gael ei wario'n ofalus ac at y dibenion y rhoddwyd yr arian. Felly, yn aml mae angen i fudiadau fod yn greadigol ac yn hyblyg i wneud mwy gyda llai. Yn aml, mae mudiadau'n diwallu anghenion cymhleth ac felly mae datrys problemau ac arloesi rhagorol yn nodweddion pwysig i lawer ohonynt.

## Cyflymder

Yn aml, gall pethau symud yn gyflymach mewn mudiadau gwirfoddol. Efallai y bydd disgwyl iddynt wneud penderfyniadau'n gyflym a bod yn hyblyg mewn ymateb i adborth a gwerthuso gan gleientiaid.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth, gyda phwyslais ar gydweithio, yn agwedd allweddol ar y Sector gwirfoddol. Gall mudiadau elusennol gydweithio mewn partneriaeth ac yn aml weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill e.e. awdurdodau lleol, y GIG, yr Heddlu.

## Annibyniaeth

Mae mudiadau'r Sector Gwirfoddol yn annibynnol ar y llywodraeth. Fel y gwyddom, cânt eu llywodraethu gan Fwrdd annibynnol sy'n penderfynu ar strategaeth, blaenoriaethau a strwythur.

# Ystyried Gwneud Cais am Swydd?

## Cyn Gwneud Cais - Dewch i Adnabod y Sector a'r Mudiad

Edrychwch ar wefan yr elusen neu rhowch alwad iddynt. Gall y cyngor gwirfoddol sirol lleol ddweud wrthych am yr elusennau yn eu sir – edrychwch ar eu gwefannau.

**Dolen Allanol**

I gael trosolwg o'r sector yng Nghymru, edrychwch ar wefan CGGC: Gwefan CGGC

Gallech wirfoddoli i elusen er mwyn dod i'w hadnabod yn well neu ddatblygu profiad mewn maes gweithgarwch. Cyn llenwi ffurflen gais neu ddiweddaru eich CV, dylech wybod am nodau a meysydd gwaith y mudiad. Mae'n werth ystyried sut mae'r rôl rydych chi'n gwneud cais amdani yn cyd-fynd â gweddill y mudiad.

## Jargon

Mae ystod eang o ddisgrifiadau swydd a theitlau swyddi o fewn y Sector gwirfoddol. Mae'r sector wedi datblygu ei jargon a'i ffyrdd ei hun o weithio ac mae'n ddefnyddiol ystyried sut y gallai eich sgiliau gyfateb i anghenion mudiad. Gwnewch eich ymchwil drwy edrych ar wefannau perthnasol neu siarad â phobl sydd eisoes yn gweithio neu'n gwirfoddoli yn y sector.

## Swyddi

Felly, pa fathau o swyddi sydd yn y Sector gwirfoddol?

Wel, mae dewis helaeth o gyfrifwyr, eiriolwyr, gofalwyr, gweithwyr datblygu cymunedol, gyrwyr, trefnwyr digwyddiadau, swyddogion codi arian, rheolwyr, cerddorion, hyfforddwyr awyr agored, tiwtoriaid, gweithwyr chwarae, ymchwilwyr a phopeth yn y canol.

## Sgiliau

Bydd sgiliau penodol yn gysylltiedig â phob swydd a disgrifiad swydd, ond mae sgiliau a phriodoleddau cyffredinol y mae galw amdanynt yn y sector.

- Sgiliau pobl gwych
- Agwedd gadarnhaol at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol
- Bod yn hyblyg a gallu dysgu'n gyflym
- Creadigrwydd a datrys problemau
- Bod yn chwaraewr tîm da
- Ffocws ar alluogi buddiolwyr i gyflawni yn hytrach na'i wneud ar eu rhan
- Y gallu i weithio o dan bwysau, rheoli eich amser yn dda a rheoli blaenoriaethau lluosog
- Sgiliau TG a digidol da
- Agwedd gallu gwneud
- Parodrwydd i barhau i ddysgu

Bydd yr hysbyseb yn crynhoi'r wybodaeth, y sgiliau, y profiad a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Bydd y fanyleb unigolyn yn rhoi mwy o fanylion.

## Cyfathrebu Beth sydd gennych i'w Gynnig

Beth yw eich sgiliau, meysydd gwybodaeth, profiad a chymwysterau? Cofiwch fod modd trosglwyddo llawer o sgiliau – felly meddyliwch am sut rydych wedi datblygu yn yr ysgol, y coleg, drwy wirfoddoli, mewn swyddi eraill, cefnogi eich teulu a'ch cymuned.

Sicrhewch fod gennych chi ddealltwriaeth dda o werthoedd y mudiad fel y gallwch eu mapio i'ch CV ac ysgrifennu amdanynt yn eich cais. Pan fyddwch yn cwblhau eich cais gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos bod gennych y sgiliau y gofynnir amdanynt, drwy roi enghreifftiau.

Meddyliwch am y sgiliau y gallai fod eu hangen arnoch i wneud swydd neu fath penodol o waith. Oes gennych chi'r sgiliau hynny? Os nad oes, sut ydych chi'n mynd i'w datblygu? Os ydych chi eisiau gweithio yn y sector ond heb lawer o brofiad nawr, yna ystyriwch wirfoddoli fel un ffordd o ddatblygu eich sgiliau, gwybodaeth a hyder. Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o ddysgu a gwella eich CV.

Unwaith y byddwch wedi nodi eich sgiliau trosglwyddadwy, gwnewch yn siŵr bod eich CV yn canolbwyntio ar y Sector gwirfoddol ac yn cynnwys unrhyw brofiad o'r sector. Cofiwch nad oes rhaid iddo fod yn brofiad â thâl!

## Awgrymiadau Ymarferol ar gyfer Dod o hyd i'r Swydd Gywir

Cymerwch ran mewn gwaith gwirfoddol a dod yn aelod o elusen y mae gennych ddiddordeb arbennig ynddi. Gall gwirfoddoli roi sgiliau newydd i chi a gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae'r elusen yn gweithredu. Meddyliwch yn ofalus iawn am y math o fudiad y byddwch yn ymuno ag ef ac a ydych yn addas iddo.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cefnogi nodau ac amcanion yr elusen rydych yn bwriadu gweithio iddi. Cysylltwch â chymaint o bobl ag y gallwch yn y Sector gwirfoddol, drwy wirfoddoli, rhwydweithio, cyfryngau cymdeithasol, LinkedIn.

## Cysylltwch - y Dull Uniongyrchol

Gallech ddewis ychydig o elusennau neu fudiadau cymunedol ac ysgrifennu atynt neu eu e-bostio'n uniongyrchol. Cofiwch gynnwys llythyr cyflwyno gyda'ch CV - amlinellwch yn glir beth yw eich sgiliau a'r math o waith y gallwch ei wneud iddynt. Mae'n well os gallwch ddarganfod enw'r unigolyn penodol y mae angen i chi e-bostio neu ysgrifennu ato/ati.

Cofiwch ddiweddaru eich proffil LinkedIn a chynnwys dolen iddo yn eich e-bost.

## Ble i Chwilio am Swyddi

Mae llawer o wefannau perthnasol ar gael, ond mae'r canlynol yn aml yn hysbysebu swyddi o'r Sector.

**Recruit3**
**Recruit3**
www.recuit3.org.uk

---

**Jobs**
**Swyddi Trydydd Sector**
www.jobs.thirdsector.co.uk

---

**Charity Jobs**
**Charity Job**
www.charityjob.co.uk

---

**Jobs**
**The Guardian**
www.jobs.theguardian.com/

---

**Jobs Go Public**
**Source**
www.jobsgopublic.com

---

**Indeed - Swyddi Trydydd Sector**
**Indeed**
www.indeed.co.uk/Third-Sector-jobs

---

**Third Sector Jobs**
**Jobsite**
www.jobsite.co.uk/jobs/third-sector

---

**Linkedin Jobs**
**Linkedin**
https://www.linkedin.com/jobs/

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.